# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Old Vicarage**

**CARTREF NYRSIO OLD VICARAGE**
**HEOL DULAIS FACH TONNAU**
**CASTELL-NEDD**
**SA11 3JW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**21 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cartref Nyrsio Old Vicarage yn darparu gofal nyrsio neu ofal personol ar gyfer hyd at 42 o bobl, gan gynnwys y rheini sydd â dementia neu eiddilwch meddwl. Mae'r cartref yn fusnes sy'n cael ei redeg gan deulu, a'r perchennog yw Old Vicarage Ltd (The). Mae'r cartref wedi'i leoli mewn safle uchel ym mhentref Tonnau, ar gyrion Castell-nedd. Yr unigolyn cyfrifol yw Anita Williams, a hi hefyd yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am reoli'r cartref yn weithredol o ddydd i ddydd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r bobl yn hapus yn byw yn yr Old Vicarage am eu bod yn byw mewn amgylchedd glân ac agored sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau maent yn eu mwynhau, sy'n cael eu darparu gan staff gofalgar a phroffesiynol. Roedd y staff yn frwdfrydig am wneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl roeddent yn eu cefnogi. Roeddent yn cael eu cefnogi'n dda gan dîm rheoli proffesiynol, profiadol a brwdfrydig sy'n parhau i gynnal diwylliant lle mae'r bobl yn ganolog i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae angen rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau bod diweddariadau i hyfforddiant gorfodol parhaus yn cael eu darparu o fewn amserlenni priodol.

### 2. Gwelliannau

Caiff unrhyw weithgareddau gyda'r bobl eu cofnodi mewn cynlluniau gofal unigol bellach. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd â'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael eu cynnal. Roedd cyfarfodydd goruchwylio â'r staff yn cael eu cynnal bob chwarter.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth a'r maes lle nad yw'r cartref gofal yn bodloni gofynion cyfreithiol.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Caiff y bobl eu hysgogi gan y staff sydd â dealltwriaeth dda ohonynt fel unigolion. Mae'r bobl yn mwynhau byw mewn cartref cyhoeddus sy'n hybu iechyd a llesiant. Mae'r bobl yn profi llesiant am fod eu hanghenion yn cael eu deall a'u hystyried.

## Ein canfyddiadau

Gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt. Roedd y cynlluniau gofal yn nodi hoffterau/cas bethau'r bobl a'r gweithgareddau roeddent wedi'u mwynhau. Roedd y cartref yn cyflogi cydlynydd gweithgareddau yn llawn amser. Roedd rôl y person yn ymroddedig i ddarparu gweithgareddau grŵp a gweithgareddau unigol. Yn ogystal, roedd yn ofynnol i'r holl staff sy'n gweithio yn y cartref ymgysylltu â gweithgareddau gyda'r bobl yn unigol. Gwelsom fod y cartref yn lletya pobl gydag anghenion cymorth nyrsio a gofal personol sylweddol. Gwelsom fod hyn yn arwain at nifer fawr o'r bobl yn treulio llawer o'u hamser yn cael gofal nyrsio yn eu gwelyau. Yn ogystal, roedd nifer sylweddol o'r bobl yn byw gyda dementia. Roedd hyn yn rhoi pwyslais mawr ar sicrhau bod y staff yn treulio amser gyda'r bobl yn ymgymryd â gweithgareddau ysgogol.

Rhoddodd y cydlynydd gweithgareddau, cyn-weithiwr gofal a hyrwyddwyr gofal dementia, wybodaeth fanwl i ni am y bobl a pha weithgareddau roeddent yn eu mwynhau. Gwnaeth ddweud wrthym fod nifer o'r bobl yn mwynhau gweithgareddau unigol yn eu hystafelloedd oherwydd eu cyflyrau iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys darllen i'r bobl, chwarae cerddoriaeth neu ganu i'r bobl, anwesu eu dwylo'n ysgafn neu aros gyda nhw yn gwmni. Roedd hefyd gweithgareddau grŵp a oedd yn amrywio o wythnos i wythnos. Gwelsom y gweithgareddau ar gyfer yr wythnos ganlynol. Roedd y rhain yn cynnwys celf a chrefft, dosbarth ymarfer corff mewn cadair freichiau, parti San Ffolant, prynhawn sinema, diwrnod harddwch ac ymweliad gan fand ukulele lleol. Roedd cyfleoedd i fynd ar deithiau hefyd yn cael eu darparu. Roedd y rhain yn cynnwys teithiau i Sain Ffagan, Folly Farm a Rheilffordd Mynydd Brycheiniog. Nodwyd bod y cartref yn defnyddio'r “dull pili pala” ar gyfer ymgysylltu â'r bobl sydd â dementia. Roedd y dull hwn yn sicrhau bod y bobl yn rhyngweithio â'r staff yn rheolaidd. Gwelsom fod yr holl weithgareddau a rhyngweithiadau yn cael eu dogfennu'n dda mewn ffeiliau unigol. Dywedodd un perthynas *“the activities person, is very bubbly and happy all the time – don’t know how she does it”.* Felly, caiff y bobl eu hysgogi ac maent yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Caiff y bobl fudd o ddeiet amrywiol a rhoddir sylw i faeth a hydradu. Gwelsom fod y bwydlenni yn amrywiol, yn iachus ac yn cynnig digon o ddewis. Roedd dewisiadau bwyd y diwrnod hwnnw wedi'u harddangos ac roedd yr opsiynau ar y fwydlen yn cael eu trafod gyda'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd y gegin wedi ennill sgôr o 5 (da iawn) gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Gwelsom fod gan y staff arlwyo ddealltwriaeth dda o ofynion deietegol y bobl sy'n byw yn y cartref. Roeddent yn awyddus i ddweud wrthym pa mor hyblyg oeddent i ddewisiadau'r bobl. Gwnaethant hefyd ddisgrifio'r ffordd roedd bwyd y bobl ar ddeietau meddal yn cael ei gyflwyno mewn ffordd a oedd yn eu hannog i fwyta. Dywedwyd wrthym bod amrywiaeth eang o'r bwyd yn brydau cartref. Ar adeg yr arolygiad roedd y staff arlwyo yn pobi pastai. Yn ogystal, roedd amrywiaeth o fwyd bys a bawd yn cael ei baratoi ar gyfer parti penblwydd yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Gwelsom fod y staff

yn sylwgar wrth sicrhau bod y bobl yn cael eu helpu i fwyta ac yfed drwy gydol y dydd. Roedd y bobl a oedd mewn perygl o ddiffyg maethiad a/neu beidio â chynnal eu hylifau yn cael eu monitro'n agos. Felly, mae'r bobl yn cael dewis da a lle nodir eu bod mewn perygl o golli pwysau neu ddadhydradu, mae pwysau a chymeriant maethol a hylif yn cael eu monitro'n effeithiol.

Mae'r bobl yn cael cymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill er mwyn cynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u lles yn barhaus. Gwelsom gysylltiadau da rhwng y cartref a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol allanol. Roedd hyn yn cynnwys nyrsys ardal, meddygon teulu, deintyddion a phodiatryddion. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref adeg yr arolygiad *“I find staff caring and approachable; they generally take on board anything I might highlight”.* Fodd bynnag, roedd yn teimlo y gellid gwella cyfathrebu mewnol. Roedd y rheolwr wedi cydnabod hyn, ac roedd camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Gwelsom fod atgyfeiriadau at weithwyr meddygol proffesiynol priodol yn cael eu gwneud yn amserol. Roedd mesurau priodol wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu'r bobl a oedd yn destun Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn dilyn proses gwneud penderfyniadau er budd yr unigolyn. Roedd hyn yn cynnwys eiriolwyr. Mae hyn yn dangos y gall y bobl ddisgwyl i'r cartref sicrhau bod eu hiechyd yn cael ei gynnal.

Gwelsom y staff nyrsio a'r gweithwyr gofal ymroddedig ac wedi'u hyfforddi yn rhoi meddyginiaeth mewn modd sensitif a phroffesiynol. Rhoddodd y staff wybodaeth fanwl i ni am y feddyginiaeth roedd y bobl yn ei chael a pham ei bod yn cael ei rhoi. Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac roedd y nyrsys yn cwblhau gwiriadau tymheredd perthnasol yn ddyddiol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd priodol. Mae hyn oherwydd bod yn rhaid i bob cartref gofal gynnal tymheredd ystafell feddyginiaeth yn is na 25°C, yn unol â chanllawiau N.I.C.E (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal) ar gyfer rheoli meddyginiaeth mewn cartrefi gofal 2014. Roedd y siartiau cofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) a welsom wedi'u cwblhau yn gywir. Mae hyn yn dangos bod y bobl yn cael eu cefnogi i fod mor ddiogel ac iach â phosibl.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sydd â dealltwriaeth dda o'u hanghenion unigol ac sy'n eu trin ag urddas a pharch. Gall y bobl fod yn hyderus bod y ddogfennaeth yn adlewyrchu eu hanghenion unigol ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd.

### Ein canfyddiadau

Caiff y bobl eu trin gyda chynhesrwydd ac mewn ffordd garedig a thosturiol yn eu gofal bob dydd.
Roedd yn amlwg bod y staff yn gyfarwydd â'i gilydd ac â'r bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd y cartref yn cynnal nifer craidd o staff a oedd wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod gan y staff ddealltwriaeth dda o'r bobl, ac roeddent yn gallu rhoi gwybodaeth fanwl i ni fel rhan o'r arolygiad. Gwelsom y gweithwyr gofal a'r staff nyrsio yn ymgysylltu â'r bobl yn ystod yr arolygiad. Roedd yr holl ryngweithiadau yn gyfeillgar, yn ddefnyddiol ac yn sicrhau bod urddas y bobl yn cael ei hybu a'i gynnal. Dywedodd un person sy'n byw yn y cartref *"staff are very kind"* a dywedodd person arall wrthym *"they look after me well".* Roedd y perthnasau yn llawn canmoliaeth hefyd gan ddweud *"Really appreciate what the staff do every day, always smiling and nothing's ever too much for them"* a *"they are very happy here, the care is good".* Gwelsom nyrs yn rhoi meddyginiaeth i rywun mewn gwely. Roedd yn ddryslyd ac yn ansicr ynglŷn â'r sefyllfa. Roedd y nyrs yn dawel ac yn gyfeillgar, ac eglurodd beth roedd yno i'w wneud. Gwelsom ei bod yn rhoi cysur a sicrwydd drwy gydol y broses, ac roedd yn amlwg ei bod yn adnabod y person yn dda iawn. Roedd pob sgwrs â'r staff yn dangos bod y bobl sy'n byw yn y cartref wrth wraidd y gwasanaeth. Roedd y sylwadau yn cynnwys *"it's all about residents"* ac *"it's their home".* Felly, mae gofal a chymorth yn cael eu darparu mewn modd urddasol gan ddangos parch, a bydd staff yn rhyngweithio'n ystyrlon ac yn meddu ar agwedd gadarnhaol llawn gofal at unigolion.

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan y darparwyr gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol ynghylch sut y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion. Gwnaethom edrych ar ffeiliau pum person sy'n byw yn y cartref. Gwelsom eu bod yn drefnus iawn ac yn rhoi gwybodaeth glir a chyfredol am yr unigolion roeddent yn cyfeirio atynt. Roedd y cynlluniau personol yn adlewyrchu dogfennaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol a gwybodaeth a gesglir gan uwch aelodau o'r staff fel rhan o asesiad cyn derbyn y cartref. Gwelsom fod gwybodaeth dda yn cael ei chofnodi mewn perthynas â hanes cymdeithasol y bobl. Roedd hyn yn cynnwys proffil un dudalen o'r unigolyn. Dywedodd y rheolwr wrthym fod yr asesiad yn casglu dymuniadau'r person ac aelodau'r teulu lle y bo'n briodol. Gwelsom fod y cynlluniau personol wedi'u hysgrifennu'n dda ac ar y cyfan roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, roedd y gofynion rheoliadol bob chwarter mewn nifer fach o gynlluniau personol ar goll. Gwnaeth y rheolwr gydnabod hyn a dywedodd y byddai'n mynd i'r afael â hyn fel mater o frys. Roedd cynlluniau personol yn cynnwys meysydd megis gofal personol, deiet a maeth, cyfathrebu, gofal y geg a symudedd. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn seiliedig ar dasgau ac yn adlewyrchu model meddygol o ofal. Er bod hyn yn ddealladwy, roeddem o'r farn bod angen mwy o ffocws ar ddatblygu dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar y person wrth lunio cynlluniau personol.

Gwelsom fod unrhyw risgiau i iechyd a llesiant y bobl wedi'u nodi'n glir, a bod mesurau rheoli ar waith i leihau'r risgiau hyn. Roedd hyn yn sicrhau bod gan y bobl a oedd mewn perygl o gwympo, colli pwysau a datblygu briwiau pwyso y mesurau diogelu perthnasol ar waith. Yn ogystal, gwelsom fod lefelau dibyniaeth y bobl yn cael eu monitro'n rheolaidd. Roedd asesiadau risg yn fanwl, yn cael eu dogfennu'n dda ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, neu pan oedd amgylchiadau wedi newid. Gwelsom fod risgiau yn cael eu lleihau drwy fonitro pwysau'n rheolaidd, gweithdrefnau croen manwl gywir a gwiriadau hylendid y geg. Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wrthym *“there has been a great improvement in the quality of general documentation, which I assume is the result of team meetings/ supervisions”.* Felly, rydym o'r farn bod y darparwr gwasanaethau yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn ac yn gallu cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gwelsom fod yr Old Vicarage yn darparu llety o ansawdd uchel mewn lleoliad hyfryd. Mae'r llety'n sicrhau bod y bobl yn ddiogel ac yn gynnes ac yn teimlo'n hapus.

### Ein canfyddiadau

Mae risgiau diangen i'r bobl wedi'u nodi a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r cartref yn ficerdy mawr wedi'i addasu ar dir pleserus ym mhentref Tonnau. Roedd y cartref wedi cael ei ymestyn yn sylweddol dros y blynyddoedd ac roedd wedi'i osod dros dair ardal ar wahân a dau lawr. Aethom i mewn i'r cartref drwy flaen y prif adeilad a gwelsom fod y cartref yn hygyrch iawn ym mhob man. Gofynnwyd i ni lofnodi llyfr ymwelwyr yn y fynedfa fawr. Wrth fynd i mewn i'r cartref cawsom ein croesawu gan yr uwch aelodau o'r staff a gwelsom y staff gofal a'r staff nyrsio yn helpu'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod y staff i gyd yn groesawgar, yn gyfeillgar ac yn cwblhau eu dyletswyddau mewn ffordd hamddenol. Roedd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol iawn am yr amgylchedd lle roeddent yn gweithio, ac roedd y sylwadau yn cynnwys *"one of the most caring places I've ever worked in"* a *"good place to work, really like it".* Dywedodd un person a oedd yn byw yn y cartref *"it's a lovely home, very happy here".* Dywedodd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol *"I do feel the environment is safe, and that the home is meeting the needs of the residents".* Gwelsom fod niferoedd priodol o'r staff ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad, a gwelsom eu bod ar gael drwy'r amser. Gwelsom fod y trefniadau diogelu priodol ar waith ar gyfer y bobl sy'n byw dan Drefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Roedd asesiadau risg unigol ar waith. Roedd y rhain yn fanwl, yn cael eu hadolygu ac yn adlewyrchu amgylchiadau unigol y person. Felly, caiff y bobl ofal mewn amgylchedd diogel.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref cynnes sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gwelsom fod ardaloedd dan do ac ardaloedd awyr agored y cartref yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd y cartref yn cyflogi staff cynnal a chadw digonol, a gwnaethom eu gweld yn cwblhau eu dyletswyddau yn ystod yr arolygiad. Gwelsom fod yr holl ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno'n dda, ac roeddent yn darparu nifer o ardaloedd i'r bobl eistedd yn dawel neu gymdeithasu. Roedd y brif lolfa a'r heulfan yn darparu golygfeydd a mynediad i ardd bleserus, a dywedwyd wrthym ei bod yn cael ei defnyddio yn ystod y misoedd cynhesaf. Gwelsom nifer o'r bobl yn mwynhau'r ardaloedd hyn yn ystod yr arolygiad. Roedd nifer fawr o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal nyrsio yn eu hystafelloedd eu hunain. Wrth ymweld â nifer o'r bobl hyn gwelsom fod cymeriad i'w hystafelloedd gwely. Roeddent yn fawr ac wedi'u haddurno'n dda. Roeddent hefyd yn cynnwys ffotograffau o'u teuluoedd, paentiadau a dodrefn gan sicrhau bod elfen bersonol. Gwelsom fod 24 o'r 40 o ystafelloedd yn darparu cyfleusterau en-suite. Roedd yr ystafelloedd eraill yn cael budd o fynediad hawdd i'r nifer o ystafelloedd ymolchi cymunedol. Roedd y rhain yn darparu cyfarpar a oedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda er mwyn i'r bobl ddefnyddio'r bath neu'r gawod. Fodd bynnag, roedd gan un ystafell ymolchi ddodrefn a theclyn codi ychwanegol yr oedd angen eu tynnu. Dywedodd un person sy'n byw yn y cartref *"I love it here"*. Dywedodd perthynas wrthym *"x in the conservatory all day and dozes off, she loves it".*

Gwelsom ffeil cynnal a chadw oedd yn cynnwys amrywiaeth o dystysgrifau. Roedd y rhain yn cynnwys tystysgrifau dŵr, nwy, trydan a diogelwch tân. Roedd y rhain i gyd yn gyfredol ac yn dangos tystiolaeth o archwiliadau rheolaidd gan weithwyr proffesiynol allanol.

Gwelsom system waith glir mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd gan y bobl a oedd yn byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad a oedd yn benodol i'w hanghenion cymorth unigol. Roedd yr holl staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân fel rhan o'u proses sefydlu, ac roedd gwiriadau rheolaidd o'r system yn cael eu cwblhau gan y staff cynnal a chadw. Yn ogystal, roedd yr holl gyfarpar a ddefnyddiwyd i helpu'r bobl i symud yn cael gwiriadau diogelwch yn rheolaidd, ac roedd tystysgrifau yn cael eu cadw ar ffeil. Mae'r bobl yn byw mewn cartref lle mae'r holl risgiau diangen wedi cael eu nodi a'u dileu cymaint â phosibl.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r aelodau o'r tîm arwain a rheoli yn hawdd mynd atynt, yn hygyrch ac yn sicrhau bod set gref o werthoedd wrth wraidd y gwasanaeth. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a chânt eu cefnogi i ddefnyddio eu sgiliau er budd y bobl sy'n byw yn y cartref.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr unigolyn cyfrifol drefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Gwelsom ganllaw i'r gwasanaeth ar gyfer pobl sy'n ystyried symud i mewn i'r cartref, a datganiad o ddiben yn diffinio'r strwythur rheoli a staffio yn y cartref. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau wedi'u trefnu'n dda ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd y rhain ar gael yn Gymraeg hefyd. Gwelsom uwch dîm sefydlog a oedd wedi gweithio yn y cartref am gyfnod sylweddol o amser. Yr unigolyn cyfrifol, nyrs brofiadol, oedd rheolwr gweithredol y cartref hefyd. Gwelsom fod diwylliant hamddenol, cadarnhaol a chefnogol wedi cael ei ddatblygu yn y cartref. Roedd yr holl weithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y tîm rheoli yn fawr iawn. Roedd y sylwadau yn cynnwys *"one of the most caring places I've ever worked in, good informal support from all managers"* a *"managers are very helpful especially with personnel problems, they are fantastic and very supportive".* Gwelsom fod holl aelodau'r tîm rheoli ar gael drwy'r amser. Gwelsom eu bod yn gwneud amser i siarad â'r bobl, y perthnasau a'r staff bob amser yn ystod yr arolygiad. Gwelsom gofnodion goruchwylio rheolaidd a oedd wedi'u dogfennu'n dda. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd pob problem o ran perfformiad staff wedi cael ei dogfennu mewn cyfarfodydd goruchwylio. Yn ogystal, er bod cyfarfodydd trosglwyddo yn cael eu cynnal yn ddyddiol, ac unrhyw bryderon yn cael eu trafod, nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi'n rheolaidd. Gallai hyn olygu na fydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â'r staff yn tanberfformio yn amserol. Cydnabuwyd hyn gan yr unigolyn cyfrifol a byddai mesurau pellach yn cael eu hystyried. Roedd y tîm rheoli yn darparu cymorth y tu allan i oriau drwy wasanaeth ar alw systematig. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod hyn *"worked very well".* Mae'r bobl yn cael budd o dîm rheoli profiadol, sy'n parhau i sicrhau bod diwylliant cadarnhaol yn cael ei gynnal.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan wasanaeth sy'n darparu nifer briodol o staff addas sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol er mwyn cyflawni canlyniadau personol yr unigolyn. Gwelsom fod lefelau staffio da yn cael eu cynnal. Roedd rotas y staff yn dangos bod hyn yn digwydd yn ystod y dydd a'r nos. Dywedodd uwch aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am y rotas bod ychydig o brinder staff wedi bod yn ystod yr wythnosau blaenorol. Roedd hyn wedi arwain at y staff yn gweithio oriau ychwanegol a defnyddio gweithwyr asiantaeth. Gwelsom fod disgwyl i nifer o staff newydd ddechrau yn yr wythnosau i ddod, a dywedwyd wrthym y byddai hyn yn lleihau'r pwysau. Gwelsom fod lefelau staffio yn hyblyg ac yn seiliedig ar anghenion gofal a chymorth unigol y bobl sy'n byw yn y cartref. Dywedodd yr holl weithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y lefelau staffio yn dda ac yn eu galluogi i dreulio *"quality time with people".* Yn ogystal, roedd y cartref yn cyflogi cydlynydd gweithgareddau a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau a threulio amser gwerthfawr gyda'r bobl. Gwelwyd hyn yn ystod yr arolygiad. Dywedodd wrthym mai pur anaml yr oedd yn cael ei ddefnyddio i roi gofal personol i'r bobl.

Gwnaethom archwilio ffeiliau chwe aelod o'r staff a gwelsom fod prosesau recriwtio a sefydlu da yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, dim ond un geirda oedd mewn dwy ffeil a dywedwyd wrthym fod y llall wedi cael ei ddarparu ar lafar. Yn ogystal, roedd ffotograffau o'r staff ar goll o ddwy ffeil. Dywedwyd wrthym y byddai sylw yn cael ei roi i'r ddau faes hyn ar unwaith. Yn ogystal, gwnaethom argymell cyflwyno fframwaith sefydlu newydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwelsom gofnodion yn dangos fod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol fel rhan o'r broses sefydlu. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant gloywi mewn meysydd megis codi a chario, rheoli heintiau a hylendid bwyd bob amser yn cael ei drefnu ar adegau priodol. Ers hynny darparwyd cynllun hyfforddiant sy'n diffinio amserlenni ar gyfer pryd y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â hyn yn glir. Roedd y staff yn canmol yr amrywiaeth o hyfforddiant a ddarperir, a gwnaethant ddweud wrthym y gallent ofyn am hyfforddiant ychwanegol mewn cyfarfodydd goruchwylio neu gyfarfodydd tîm. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys gofal dementia, gofal clwyfau, gofal sy'n canolbwyntio ar y person a chynnal urddas a pharch. Felly mae'r bobl yn cael budd o gymysgedd o sgiliau sy'n cael ei adolygu'n barhaus ac sy'n cael ei addasu i ymateb i anghenion newidiol y bobl. Er bod y staff wedi'u hyfforddi'n dda, mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau y darperir hyfforddiant gloywi yn rheolaidd.

Roedd yr unigolyn cyfrifol yn cynnal proses sicrhau ansawdd gynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys monitro bob chwarter ac archwiliadau rheolaidd o feysydd megis meddyginiaeth, cynllunio gofal ac iechyd a diogelwch. Roedd y rhain yn cynnwys ymgynghori â'r bobl sy'n byw yn y cartref, y perthnasau, y staff a'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol. Roedd hefyd uwch aelod profiadol o'r staff yn gyfrifol am fonitro'r gweithwyr gofal. Roedd y rôl yn sicrhau bod y staff newydd wedi cyflawni lefel o gymhwysedd fel rhan o'r broses sefydlu a'u cymeradwyo. Roedd hefyd yn monitro'r staff yn barhaus er mwyn sicrhau bod cymwyseddau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, nid oedd gwiriadau o'r fath bob amser yn cael eu cofnodi a byddai hyn yn ddefnyddiol fel rhan o'r broses oruchwylio. Felly, mae systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad diwethaf.

## 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom hysbysu'r rheolwr bod angen iddi sicrhau'r canlynol:-

Rheoliad 36 (cefnogi a datblygu staff). Mae hyn oherwydd er bod y staff yn cael hyfforddiant gorfodol fel rhan o'u proses sefydlu, nid oedd diweddariadau i hyfforddiant gorfodol parhaus yn cael eu darparu o fewn amserlenni priodol. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno ar yr achlysur hwn am ein bod yn fodlon ar y camau sy'n cael eu cymryd gan y rheolwr.

## 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y canlynol:

- Sicrhau bod yr holl wybodaeth dan ofynion rheoliadol yn cael ei chynnal yn ffeiliau personél y staff.
- Ystyried cyflwyno Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru.
- Sicrhau bod unrhyw ddiffygion o ran perfformiad y staff yn cael eu dogfennu'n glir mewn cyfarfodydd goruchwylio.
- Cofnodi cyfarfodydd tîm/trosglwyddo.
- Sicrhau bod pob cynllun gofal yn cael ei adolygu bob chwarter neu pan fydd pethau'n newid.
- Datblygu dull o gynllunio gofal sy'n canolbwyntio mwy ar y person.
- Cyflwyno proses asesu cymhwysedd ffurfiol fel rhan o'r broses fonitro a goruchwylio.
- Sicrhau y caiff yr holl eitemau diangen eu tynnu o ardaloedd yr ystafelloedd ymolchi.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom gynnal yr arolygiad dros ddau ddiwrnod, ar 07 Chwefror 2019 rhwng 09.00am a 4.30pm ac ar 08 Chwefror 2019 rhwng 8.30am a 1.30pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â'r rheolwr, y gweithwyr gofal, y nyrsys, y staff gweinyddol a'r staff arlwyo;
- Gwnaethom siarad â'r bobl a oedd yn byw yn y cartref a'u perthnasau;
- Cawsom adborth gan dri gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref a gan swyddog comisiynu;
- Gwnaethom edrych ar y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth;
- Aethom ar daith o gwmpas y cartref a'r gerddi o'i amgylch;
- Gwnaethom archwilio ffeiliau chwe aelod o'r staff (gan gynnwys cofnodion recriwtio a sefydlu);
- Gwnaethom archwilio ffeiliau pum person a oedd yn byw yn y cartref (gan gynnwys cynlluniau gofal/cymorth, dogfennau asesu risg a siartiau rhoi meddyginiaeth);
- Gwnaethom edrych ar rotas y staff, cofnodion cynnal a chadw a thystysgrifau diogelwch
- Gwnaethom edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr Gwasanaeth** | **Old Vicarage Limited (THE)** |
| **Rheolwr** | **Anita Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **42** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **25 Medi 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **07 a 08 Chwefror 2019** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nod y gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |